# Paul Dix

Hyfforddwr Arweiniol, Pivotal Eduation



Mae Paul Dix yn un o sylfaenwyr a hyfforddwyr arweiniol Pivotal Education ers 2001. Cyhoeddwyd pum llyfr ganddo ar Ymddygiad ac Asesu.

Bu Paul yn cynghori'r Adran Addysg ar Safonau Athrawon, yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Addysg ac mae wedi gwneud gwaith helaeth gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Ymddygiad ac Ataliad yn Nalfa'r Ifanc. Enillodd Wobr Hyfforddi Cenedlaethol, mae'n ysgrifennu i'r *Times Educational Supplement* a *Teach Primary Magazine*.

Yn y 12 mis diwethaf mae Paul wedi bod yn ysgrifennu a datblygu Cwricwlwm Pivotal ar gyfer Ymddygiad a Diogelwch. Ar hyn o bryd mae'n arwain prosiect Ymddygiad ar draws 90 o ysgolion yng Nghaerffili a lluniodd a chyflwynodd Gwrs Ar-lein Enfawr Agored i'r Canolfannau Dysgu Gwyddoniaeth Cenedlaethol.

Fel plentyn anodd, athro diflino a hyfforddwr athrawon uchel ei barch, mae llais Paul Dix yn atseinio mewn nifer o ystafelloedd dosbarth. Mae Paul wedi gweithio gyda'r ymddygiadau mwyaf anodd yn yr ysgolion a'r colegau dinesig mwyaf heriol dros y 25 mlynedd diwethaf. Mae'n arwain Ymgynghoriaeth Addysgol arobryn sy'n trawsnewid ymddygiad, addysgu a dysgu mewn ysgolion a cholegau yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yn ei 'amser rhydd' mae Paul yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr TBAP (*Tri Borough Alternative Provision*), Ymddiriedolaeth Aml Academi gyntaf y DU i Ddarpariaeth Amgen ac AP. Lleolir yr Ymddiriedolaeth yn Llundain ac mae ganddi ysgolion yn Kensington a Chelsea, Westminster, Hammersmith a Fulham a Haringey.